O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2011 Rhif 806 (Cy.120)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Y Ffordd Ymuno tua'r Dwyrain wrth Gyffordd 33, Cyfnewidfa Llaneurgain, Sir y Fflint) (Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro) 2011

Gwnaed	*15 Mawrth 2011*
Yn dod i rym	*28 Mawrth 2011*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd Caer – Bangor (yr A55) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arno.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 28 Mawrth 2011 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Y Ffordd Ymuno tua'r Dwyrain wrth Gyffordd 33, Cyfnewidfa Llaneurgain, Sir y Fflint) (Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro) 2011.

2. —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" *("exempted vehicle")* yw unrhyw gerbyd a ddefnyddir ar gyfer y gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn, neu mewn cysylltiad â'r gwaith hwnnw, neu unrhyw gerbyd a ddefnyddir ar gyfer y gwasanaethau brys;

ystyr "cyfnod y gwaith" *("works period")* yw'r cyfnod hwnnw sy'n cychwyn am 18:30 o'r gloch ar 28 Mawrth 2011 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro wedi cael eu tynnu oddi yno'n barhaol.

ystyr "y darn o'r gefnffordd" *("the length of the trunk road")* yw'r cyfan o'r ffordd ymuno tua'r dwyrain cefnffordd yr A55 wrth Gyffordd 33, Cyfnewidfa Llaneurgain yn Sir y Fflint.